**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad

05 Awst 2015

Annwyl Aelod Cynulliad

Mae'n siŵr eich bod wedi gweld y sylw ar y cyfryngau dros yr ychydig ddiwrnodau diwethaf i Griffin Place Communications, Cwmbrân a'r swyddi a gollwyd wrth i'r cwmni ddod i ben.

Cysylltwyd â Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2014 gan ofyn am gymorth ariannol i greu tua 300 o swyddi yn Nhorfaen, gyda nifer ohonynt i'w recriwtio o blith pobl a fu'n ddi-waith dros gyfnod hir. Ym mis Hydref llynedd, cafodd y cwmni gynnig grant a oedd yn amodol ar dros £1m o fuddsoddiad preifat a benthyciadau, a bod y 121 swydd a grëwyd yn wreiddiol i'w cynnal am dair blynedd o leiaf.

Wedi creu'r swyddi cychwynnol a chael y rhan fwyaf o'r cyllid, mae'n amlwg yn siomedig iawn clywed bod y gweithwyr wedi'u diswyddo, gan dorri telerau ein grant. Felly mae fy Swyddogion wedi dechrau ar y broses gyfreithiol i geisio adfer yr arian.

Rwy'n deall ei bod yn gyfnod anodd iawn i'r gweithwyr a'u teuluoedd, ac mae fy Swyddogion yn gweithio ar hyn o bryd i helpu cyflogwyr lleol eraill a all gynnig cyfleoedd o bosibl i'r bobl sy'n chwilio am swyddi newydd. Rwy'n ymwybodol bod sefydliadau cyfagos eisoes wedi cysylltu â rhai aelodau o staff, ac mae fy Swyddogion hefyd wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd o bosib â diddordeb yn yr adeilad, sydd am gyflogi o leiaf 30 aelod newydd o staff.

Mae Swyddogion hefyd wedi cysylltu â Fforwm Canolfannau Cyswllt Cymru er mwyn eu paratoi i gyfeirio'r staff dan sylw at gyflogwyr newydd posibl yn yr ardal.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*